Heddwch ar y ddaear

(diolchgarwch / gweld cyfle / rhannu)

Dwyflwydd oed oedd Sadako pan ollyngwyd y bom atomig ar Hiroshima yn Japan ar 6 Awst 1945. Yr Unol Daleithiau oedd yn gyfrifol am ollwng y bom ar ddinas Hiroshima. Mewn eiliad roedd y bom wedi lladd miloedd o bobl a gadael y ddinas yn adfeilion. Ond fe adawodd effaith y bom ei hôl am flynyddoedd wedyn. Lledaenodd yr ymbelydredd am filltiroedd ar hyd a lled Japan. Ar y cychwyn doedd dim yn dangos, ond fel yr oedd y blynyddoedd yn mynd yn eu blaenau gwelwyd llawer o'r plant a'r oedolion yn clafychu.

Mwynhad pur i Sadako a'i ffrindiau oedd rhedeg rasys. Byddai'r genethod yn ymarfer am fisoedd cyn diwrnod mawr y mabolgampau. Un diwrnod pan oedd yn barod i redeg ras yn y mabolgampau teimlodd yn chwil a phob man yn edrych yn ddu o'i chwmpas. Aeth ei rhieni â hi i weld y meddyg lleol. Nid oedd ganddo'r syniad lleiaf beth oedd yn bod ar Sadako. Anfonodd hi i'r ysbyty i gael archwiliad manwl. Ar ôl wythnosau o arbrofi cafodd Sasako newydd drwg iawn. Roedd hi'n dioddef o glefyd oedd yn amharu ar y gwaed, sef leukaemia. Ym marn y meddygon yr ymbelydredd o'r bom atomig oedd yn gyfrifol am yr afiechyd hwn. Yn araf roedd yn gwaethygu. Doedd hi ddim yn gallu rhedeg rasys fel o'r blaen. Cyn bo hir, doedd hi ddim yn gallu cerdded. Bu'n rhaid iddi fynd i mewn i'r ysbyty i aros.

Yn yr ysbyty roedd y cleifion oedd yn dioddef o'r afiechyd leukaemia yn gorfod cymryd moddion oedd yn chwerw ac yn atgas. Penderfynodd y nyrsys y byddai'r cleifion yn gallu defnyddio'r papur oedd yn amgylchynu'r moddion i wneud origami. Gwyddai Sadako'n dda am yr hen goel ynglŷn ag origami. Roedd ei mam-gu droeon wedi dweud yr hanes wrthi. "Os byddi di'n teimlo'n sâl rywbryd, dim ond i ti wneud mil o origami ar siâp garan yna fe fyddi di'n dod yn well." Cofiodd eiriau ei mam-gu.

Dechreuodd wneud origami o'r papur oedd am ei moddion. Byddai'r cleifion i gyd yn casglu'r papurau iddi. Yn fuan dechreuodd y rhifau godi o wythnos i wythnos: cant, dau gant, tri chant. Pan fyddai ei ffrindiau'n galw i'w gweld y cwestiwn cyntaf bob tro oedd, "Faint wyt ti wedi'i wneud erbyn hyn?" Pan fyddai hi wedi gorffen pob garan byddai'n ysgrifennu'r gair "Heddwch" ar ei

adenydd ac yna'n ei godi i'r awyr gan ddweud, "Rwyf yn dy anfon i ffwrdd er mwyn i ti ddod â heddwch i'r byd i gyd."

Yn fuan, roedd hi mor wan, fel na allai ddefnyddio ei dwylo i wneud origami. Ar ôl iddi greu 647 bu farw'n ddeuddeg mlwydd oed. Ar ôl ei marwolaeth penderfynodd ei ffrindiau barhau i wneud yr adar origami er cof amdani. Ymhen rhyw wythnos roedd 353 ohonyn nhw wedi'u cwblhau. A dyna'r ffigwr wedi cyrraedd un fil. Rhoddwyd y rhain o gwmpas y gwely y bu Sadako'n glaf ynddo. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Adeiladwyd cofgolofn i Sadako ym Mharc "Heddwch" Hiroshima. Cofgolofn agored gyda garan aur ar ei ben yw'r gofgolofn yn y Parc. Bydd plant o bob gwlad yn ymweld â'r gofgolofn ac yn dod ag adar origami i'w hongian y tu mewn. Mae'r gofgolofn yn atgoffa'r bobl o ddinistr rhyfel ac yn ei gwneud yn benderfynol o weithio'n galed i greu heddwch ar y ddaear.

Adnod: "Gwyn eich byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n feibion Duw." Mathew 5:9

Gweddi: Dyma ein cri, dyma ein gweddi. Heddwch ar y ddaear. Amen.

Trafod:

- Beth yw eich barn chi am ein coelion? Beth am goel mam-gu Sadako?
- Pa mor bwysig heddiw ydi gweithio dros heddwch byd?